
GIG CYMRU NHS WALES
Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

cymorth cymru
connect • strengthen • influence

# Uwchgynhadledd Iechyd Cynhwysiant

## Dydd Iau 5 Chwefror 2026

## Gwesty Leonardo, Caerdydd



# Rhaglen

**9:30** 
## Croeso a sylwadau agoriadol
- Katie Dalton - Cymorth Cymru
- Dr Tracey Cooper OBE - Iechyd Cyhoeddus Cymru

**9:45**
## Arbenigwyr drwy Brofiad: Pwysigrwydd Cynhwysiant Iechyd
- Arbenigwyr drwy brofiad - Prosiect Dreamers

Mae gwrando ar leisiau rhai a chanddynt brofiad bywyd yn rhan bwysig o'r dull cynhwysiant iechyd, a gobeithiwn osod y naws ar gyfer yr uwchgynhadledd heddiw trwy glywed gan arbenigwyr drwy brofiad am yr heriau maent wedi eu hwynebu wrth geisio cael mynediad i wasanaethau iechyd, a'r effaith bositif y gall cynhwysiant iechyd ei gael ar fywydau pobl.

**10:00**
## Dull Cynhwysiant Iechyd yn Iwerddon
- Brian Kirwan, Health Service Executive, Dulyn
- Dr Austin O'Carroll, Meddyg Teulu yn Nulyn

Braint yw croesawu Brian Kirwan a Dr Austin O'Carroll i siarad am y dull cynhwysiant iechyd yng Ngweriniaeth Iwerddon. Brian yw Rheolwr Cyffredinol y Social Inclusion for the Health Service Executive (HSE) yn Nulyn, ac mae Austin yn feddyg teulu a chanddo lawer o brofiad mewn cyflenwi gofal iechyd i gymunedau ar gyrion cymdeithas, yn cynnwys pobl ddigartref. Yn Iwerddon, mae'r HSE wedi sefydlu Swyddfa Genedlaethol dros Gynhwysiant Cymdeithasol, yn ogystal â darparu cyllidebau pwrpasol ar gyfer cynhwysiant cymdeithasol a phenodi rhai i swyddi arweiniol rhanbarthol i gyflawni'r uchelgais o leihau'r anghydraddoldeb ym maes iechyd a gwella mynediad at wasanaethau iechyd i grwpiau yn Iwerddon sy'n cael eu tan-gynrychioli a'u heithrio'n gymdeithasol. Mae'r sesiwn yma'n rhoi cyfle i ddysgu mwy am y dull hwn, ac i ystyried a ellid mabwysiadu rhai elfennau ohono yng Nghymru.

**11:00**
## Toriad am luniaeth ysgafn

**11:30**
## Fframwaith Galluogi Cynhwysiant Iechyd
- Michelle Hughes - Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Rebecca Bullingham - Iechyd Cyhoeddus Cymru

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi bod yn arwain ar waith i hyrwyddo cynhwysiant iechyd ledled Cymru, gan gyhoeddi ystod o arweinlyfrau arfer da, a phecynnau. Mae'n bleser gennym roi sylw i'r Fframwaith Galluogi Cynhwysiant Iechyd yn yr uwchgynhadledd hon heddiw, a gobeithiwn y gall mynychwyr wneud defnydd o'r fframwaith i wreiddio'r dull yma yn eu gwaith.

**11:40**
## Gwella mynediad at wasanaethau deintyddiaeth, optometreg a fferylliaeth
- Natalie Gerardo - Llywodraeth Cymru

Pleser o'r mwyaf i ni yw croesawu cydweithwyr o Lywodraeth Cymru, sy'n arwain prosiect yn canolbwyntio ar wella mynediad at wasanaethau deintyddiaeth, optometreg a fferylliaeth ar gyfer rhieni y mae eu lleisiau'n cael llai o wrandawiad, neu sy'n wynebu rhwystrau wrth geisio cael mynediad at wasanaethau. Byddant yn amlinellu pwrpas yr ymchwil ac yn annog mynychwyr i gymryd rhan mewn arolwg ynghylch yr heriau sy'n wynebu'r bobl maent yn eu cefnogi, yn ogystal â sut y gellir gwneud gwelliannau.

## 11:50 Gweithdai

| Gwreiddio cynhwysiant mewn cymorth iechyd meddwl mynediad agored | Cefnogi goroeswyr trais rhywiol a chanddynt anghenion cymhleth | Asesiad Effaith ar Iechyd y Bil Digartrefedd |
|---|---|---|
| • Chris O'Connor and Katie Cole - Perfformiad a Gwella GIG Cymru | • Debbie Woodroffe - New Pathways | • Dr Benjamin Gray - Iechyd Cyhoeddus Cymru |

## 12:50 Cinio a rhwydweithio

## 13:30 Gweithdai

| Gwreiddio cynhwysiant mewn cymorth iechyd meddwl mynediad agored | Parhad gofal iechyd yn y system cyfiawnder troseddol | Sut i wella dulliau o gynnwys Arbenigwyr drwy Brofiad |
|---|---|---|
| • Chris O'Connor and Katie Cole - Perfformiad a Gwella GIG Cymru | • Fatima Sayed - Iechyd Cyhoeddus Cymru<br>• Peter Salami, Sadie Fosterjohn and Bethan Waites - HMPPS<br>• Amber O'Brien - BIPBC | Arbenigwyr drwy brofiad ac aelodau staff o:<br>• Prosiect Dreamers<br>• Y Wallich<br>• Fforwm Cynghrair Profiad Byw Bae Gorllewin |

## 14:30 Dysgu o ddatblygiad CAVHIS

- Dr Ayla Cosh - Gwasanaeth Cynhwysiant Iechyd Caerdydd a'r Fro

Rydym wrth ein bodd yn croesawu Dr Ayla Cosh i rannu gwybodaeth yn deillio o'r modd y datblygwyd ac yr ehangwyd Gwasanaeth Cynhwysiant Iechyd Caerdydd a'r Fro (CAVHIS), a sefydlwyd yn 2021 ac sy'n darparu gofal iechyd caredig, cwrtais ac urddasol i gymunedau ar gyrion cymdeithas. Byddwn hefyd yn clywed sut mae'r gwasanaeth wedi bod yn peilota'r dull 'Gofyn a Gweithredu', yn seiliedig ar y dyletswyddau o fewn y Bil Digartrefedd a Dyrannu Tai Cymdeithasol (Cymru). Ar hyn o bryd mae'r ddeddfwriaeth hon yn gwneud ei ffordd drwy'r Senedd, a bydd angen i ystod o wasanaethau cyhoeddus – yn cynnwys iechyd a chyfiawnder troseddol – ymyrryd pan fo rhywun yn ddigartref, neu mewn perygl o fod yn y sefyllfa honno.

## 15:30 Sylwadau clo

**Rhannwch eich barn a gofynnwch gwestiynau yn ystod y gynhadledd:**

- Sganiwch y cod QR, neu
- Ewch i slido.com a nodwch y rhif #050226